



*making*sense@home

Croeso i'ch pecyn offerynnau cerdd!

Mae'r pecyn yn cynnwys deunyddiau i wneud tri offeryn gwahanol. Ochr yn ochr â'r deunyddiau mae trac sain cerddorol i'ch cynorthwyo chi i archwilio'r offerynnau newydd a chreu cerddoriaeth gyda'ch gilydd.

Dyluniwyd y pecyn hwn ar eich cyfer chi gan y cerddor a'r therapydd cerdd Rosie Angell.

Welcome to your musical instrument pack!

Within this pack are the materials to make 3 different instruments. Alongside the materials there is a musical soundtrack to help you explore your new instruments and to make some music together.


This pack has been designed for you by Musician and Music therapist Rosie Angell.



ARIENIR GAN
Y LŶTERI
LOTTERY FUNDED



“ Mae cymaint o wahanol fathau o gerddoriaeth ac rwy'n siwr fod gennych chi hoff ganeuon a cherddorion rydych chi'n mwynhau gwrando arnyn nhw eisoes. Mae cerddoriaeth yn medru ysgogi emosiynau ac atgofion cryf ynom ni. Beth am dreulio amser yn gwrando ar hoff gân tra rydych chi'n gwneud eich offerynnau? Sut mae'r gerddoriaeth yn gwneud i chi deimlo? Ydi o'n gwneud i chi fod eisiau dawnsio neu symud? Efallai ei fod yn eich gwneud chi fod eisiau canu! Unwaith y byddwch chi wedi gwneud eich hofferynnau dilyn-wch y ddolen “



<http://www.tickyloewe.com/music-box/>

“ Yma cewch hyd i nifer o ganeuon a thraciau rydw i wedi'u recordio i chi wrando arnyn nhw â chwarae eich offeryn gyda nhw. Gallai hyn fod yn rhywbeth rydych chi'n ei wneud gyda'ch gilydd bob wythos. Alawon gwerin traddodiadol yw'r alawon. Mae alawon gwerin yn dwyn atgofion cadarnhaol am yr haf, bod y tu allan mewn gwyliau cerddoriaeth a chwarae cerddoriaeth gyda llu o bobl. Maen nhw'n wych ar gyfersymud a dawnsio iddyn nhw hefyd. Rwy'n gobeithio y gwnewch chi fwynhau gwrando arnyn nhw “



Trac 1 – Cân helo

Cân groeso fer i'ch cael chi yn y naws iawn i greu cerddoriaeth.

Trac 2 – The Gobbie O (Traddodiadol)

Mae Trac 2 yn gân i'ch helpu chi archwilio seiniau uchel a distaw gyda'ch offerynnau. Gwnewch yn siwr eich bod chi'n rhoi cynnig ar seiniau uchel a distaw ar bob un offeryn - efallai y bydd rhai'n anoddach na'i gilydd! Weithiau rydym ni eisiau chwarae a gwranddo ar gerddoriaeth uchel, a thro arall efallai y bydd cerddoriaeth dawel yn gweddu'n well i'n hwyliau.

Trac 3 – Vals from Smorland/Godesses/Parsons Farewell (Traddodiadol)

Mae'r alawon hyn yn dechrau'n ara deg ac yn mynd yn gyflymach a chyflymach yn raddol. Fedrwch chi ddal i fyny efo'r newid cyflymder? Sut mae'r newid yn y cyflymder yn effeithio arnoch chi?

Trac 4 – John Ryans (Traddodiadol)

Mae'r alaw hon yn ymwneud â chymryd eich tro a gwranddo ar y naill a'r llall yn chwarae. Byddwch yn clywed yr alaw gyfan yn gyntaf ac yna'r ail waith bydd bylchau i chi chwarae eich rhan chi.

Trac 5 – The Galway (Traddodiadol)

Alaw werin draddodiadol i chi gyd-chwarae gyda hi. Fedrwch chi gadw amser cywir gyda'r curiad?

Trac 6 – Cân ffarwel

Cân ffarwel i ddweud diolch yn fawr iawn am gymryd rhan a hwyl fawr.

Tambwrîn

Dau blat papur

8 jingl

Eitemau addurniadol

Glanhawyr pibell

1. Addurnwch eich platiau papur! Cewch ddefnyddio paent neu binâu ffelt i dynnu lluniau ac ychwanegu llwyth o liw. Gludwch unrhyw rai o'r eitemau addurno er mwyn gwneud i'ch tambwrîn edrych yn lliwgar a llachar.
2. Rhowch eich platiau papur at ei gilydd. Gwnewch yn siwr fod y tyllau yn cyd-fynd.
3. Defnyddiwch y glanhawyr pibell i roi dau jingl wrth bob twll a dal y platiau papur gyda'i gilydd.
4. Chwaraewch eich tambwrîn!



Drwm y Cefnfor

2 blat plastig

Gleiniau

Tâp

1. Rhowch y gleiniau i gyd ar un o'r platiau plastig.
2. Defnyddiwch y tâp i ludo'r plat arall ar ben y plat cyntaf.
3. Mae croeso i chi addurno eich drwm os ydych chi'n dymuno.
4. Mwynhewch chwarae'r drwm! Gwyliwch y gleiniau'n symud o gwmpas y platiau – rhowch gynnig ar eu symud yn araf ac yn gyflym i glywed y gwa-hanol seiniau maen nhw'n ei wneud.



Canllawiau diogelwch

***Mae'n cynnwys darnau bach. Cadwch allan o gyrraedd cyn ei ddefnyddio, ac yna sicrhau fod y drwm wedi'i selio'n gadarn gyda tâp Selo o o gwmpas yr ymylon i atal colli gleiniau!**

Mandolin

Twb

Bandiau elastig

1. Rhwch y bandiau elastig o gwmpas canol y twb.
2. Plyciwch y bandiau elastig i glywed y gwahanol seiniau a thrawiau. Pa fandiau sy'n gwneud gwahanol synau? Fedrwch chi eu mwytho a'u plycio'n galetach i wneud seiniau uchel a thawel?
3. Mae croeso i chi addurno'r twb os ydych chi'n dymuno!



Mwy am Rosie

Mae Rosie Angell yn therapydd cerddoriaeth cymwysedig a pherfformiwr. Cyn dilyn yr hyfforddiant bu Rosie'n gweithio am sawl blwyddyn fel gweithiwr cymorth cerddoriaeth mewn canolfan ddydd ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu. Fel rhan o'r swydd hon roedd Rosie'n gyfrifol am sefydlu a darparu'r ddarpariaeth gerddoriaeth gyfan i tua 60 o gyfranogwyr. Ffurfiodd gôr, grŵp samba, grwpiau ysgrifennu caneuon a threfnodd lawer o dripiâu i'r theatr a'r sinema.

Mae Rosie wedi bod yn angerddol ynghylch cerddoriaeth werin ers dysgu chwarae'r recorder yn yr ysgol ac yna'n aelod o wahanol grwpiau dawnsio gwerin yng Ngwlad yr Haf. Aeth ymlaen i ennill gradd Anrhydedd BMus yn Conservatoire Birmingham mewn perfformio'r recorder. Mae Rosie hefyd yn canu'r fflwt, piano a gitar bach. Yn ystod ei chyfnod yn Conservatoire Birmingham roedd hi'n aelod o Ensemble Gwerin y Conservatoire ac yn rhan o grŵp gwerin bach a oedd yn perfformio'n rheolaidd ar draws y wlad. Symudodd Rosie i ogledd Cymru yn Hydref 2018 ac mae hi wedi bod wrth ei bodd yn dod i adnabod yr ardal leol a dysgu ychydig o Gymraeg.

Lluniwyd y pecyn hwn gan Ticky Lowe, Cyfarwyddwr Making Sense CIC.

Mae Making Sense yn gwmni budd cymunedol dan arweiniad artist sy'n arbenigo mewn gweithgareddau ac adnoddau synhwyraidd a chreadigol.

Os hoffech chi ganfod rhagor am ein gwaith ewch i www.makingsensecic.org.uk neu gysylltu gyda tickylope@makingsensecic.org.uk

Byddem wrth ein boddau'n gweld lluniau neu ffilmiau ohonoch chi'n cymryd rhan yn y gweithgaredd!

Cofiwch sôn am Makingsensecic os ydych chi'n rhoi rhywbeth ar Facebook!

Llenwch y ffurflen adborth os gwelwch yn dda a'i dychwelyd pan fyddwch chi'n derbyn eich parcel synhwyraidd nesaf.



